

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 9 Gorffennaf  
2020 am 3.00 pm ym Virtual.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn  
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple    Y Cyngorydd J Bonetto  
Y Cyngorydd P Jarman    Y Cyngorydd D Grehan  
Y Cyngorydd G Hughes    Y Cyngorydd J Williams  
Y Cyngorydd W Owen    Y Cyngorydd R Yeo  
Y Cyngorydd D Williams    Y Cyngorydd S Powderhill

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu  
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu  
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio  
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd  
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Mr H Towns - Rheolwr Cynllunio Mwynau a Gwastraff,  
Mr N Pilliner, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai  
Mr G Purnell, Swyddog Rheoli Llygredd

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd S Pickering

Y Cyngorydd H Fychan  
Y Cyngorydd M Powell

**233    DATGAN BUDDIANT**

Cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams fuddiant personol, sydd hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ynglŷn â Chais Rhif: 15/0666 Estyniad gorllewinol i'r chwarel bresennol, i gynnwys echdynnu 10 miliwn tunnell ychwanegol o dywodfaen pennant yn raddol, adeiladu byndiau sgrinio, gwaith cysylltiedig, a chydgrynhoi'r holl ganiatadau cynllunio mwynau blaenorol yn Chwarel Craig yr Hesg, gan gynnwys estyn y dyddiad gorffen ar gyfer chwarela a chynllun adfer cyffredinol (gwybodaeth ychwanegol wedi'i nodi yn yr adroddiad "Materion Lles ac Iechyd yr Amgylchedd"). Chwarel Craig yr Hesg, Heol Berw, Pontypridd, CF37 3BG.  
"Rwy'n rhan o grŵp gweithredu sydd yn erbyn y cynnig i ymestyn y chwarel.

**234 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**235 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**236 CAIS RHIF: 15/0666/10**

**CAIS RHIF: 15/0666/10 Estyniad gorllewinol i'r chwarel bresennol, i gynnwys echdynnu 10 miliwn tunnell ychwanegol o dywodfaen pennant yn raddol, adeiladu byndiau sgrinio, gwaith cysylltiedig, a chydgrynhoi'r holl ganiatadau cynllunio mwynau blaenorol yn Chwarel Craig yr Hesg, gan gynnwys estyn y dyddiad gorffen ar gyfer chwarela a chynllun adfer cyffredinol (gwybodaeth ychwanegol wedi'i nodi yn yr adroddiad "Materion Lles ac Iechyd yr Amgylchedd"). Chwarel Craig yr Hesg, Heol Berw, Pontypridd, CF37 3BG.**

**NODER:** Roedd Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D Williams, a oedd wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynglyn â'r mater yma, wedi gadael y cyfarfod er mwyn i'r drafodaeth gael ei chynnal (Fel sydd wedi'i nodi yng Nghofnod 233 uchod).

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H Fychan, M Powell a S Pickering, nad ydyn nhw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig a'r effaith bosibl ar drigolion lleol.

Penderfynodd y Pwyllgor gadw aelodau o'r wasg a'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran s100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn cael cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r cais, ar y sail y byddai'n debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn benodol, gwybodaeth a allai arwain at hawlio braint broffesiynol gyfreithiol mewn achos cyfreithiol.

Yn dilyn derbyn y cyngor cyfreithiol, cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio fanylion y cais i'r Pwyllgor, a rannwyd gyda'r Pwyllgor yn flaenorol ar 6 Chwefror 2020,. Bryd hynny, roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu. Amlinellodd gynnwys llythyrau 'hwyr' a dderbyniwyd, gan roi gwybod i'r Pwyllgor bod 62 o negeseuon e-bost wedi'u derbyn, a bod 60 ohonynt yn nodi gwrthwynebiadau ar sail effaith ffrwydradau ar ansawdd yr aer, llwch, traffig a phroblemau

amgylcheddol. Roedd 2 neges e-bost o blaid y datblygiad.

Yn ogystal â hynny, ailgyflwynwyd un llythyr gan yr AC Vikki Howells, a oedd yn amlinellu pryderon ar ran ei hetholwyr y byddai'r gwaith yn digwydd o fewn cylchfa ragod o 200m, yn ogystal â'r pryderon lleol ynglŷn â ffrwydradau, effaith llygredd yn yr aer a phroblemau traffig. Cafodd llythyr gan Gyngor Cymuned Ynysybŵl a Choed-y-Cwm, sy'n ategu'i wrthwynebiad i'r cais, ei rannu hefyd.

Hefyd, cafwyd 2 lythyr gan yr ymgynghorydd cynllunio ar ran yr ymgeisydd, ac roedd y diweddaraf ohonynt (dyddiedig 7 Gorffennaf 2020) yn amlinellu'r amodau a awgrymwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a amlinellwyd yn yr adroddiad ynghylch y gylchfa ragod 200m a chyfyngu ar allbwn o'r chwarel.

Dywedodd y Pennaeth Materion Cynllunio wrth yr Aelodau fod Mr H. Towns (Rheolwr Cynllunio Mwynau a Gwastraff o Gyngor Sir Caerfyrddin) a oedd yn bresennol i ddarparu cyngor arbenigol yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor ym mis Chwefror, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod yma er mwyn annerch yr Aelodau. Yna rhoddodd Mr H Towns drosolwg i'r Pwyllgor o'r adroddiad a oedd yn manylu ar y pryderon a nodwyd gan yr Aelodau yn y gorffennol. Trafododd y cryfderau a'r gwendidau sydd ynghlwm â phob pwynt a godwyd yn yr adroddiad: 1) effeithiau niweidiol ar iechyd oherwydd ansawdd aer, 2) effeithiau amwynder niweidiol o ran peidio â darparu cylchfa ragod o 200m a 3) difrod i'r rhwydwaith priffyrdd.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, am y rhesymau canlynol:

1) Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Mae agregau (Paragraffau 70 a 71) yn nodi isafswm pellter addas rhwng chwareli creigiau caled a datblygiad sensitif fel 200 metr ac yn nodi y dylid profi bod unrhyw ostyngiad o'r pellter hwn oherwydd rhesymau clir y gellir eu cyfiawnhau. Mae'r estyniad arfaethedig yn tresmasu o fewn 200m i ddatblygiad sensitif ac nid yw'r Cyngor o'r farn bod yr ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth ddigonol o resymau clir y gellir eu cyfiawnhau dros leihau'r isafswm pellter yn yr achos hwn.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm**

**Y Cynghorydd S Rees  
Cadeirydd.**